

Cylchlythyr | Circular

Cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (HERC) 2024-25

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2024
Cyfeirnod: W24/14HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: 14 Chwefror 2025 a 25 Ebrill 2025
Cyswllt: Enw: Hayley Moss
Ffôn: 029 2085 9716
E-bost: hayley.moss@hefcw.ac.uk /
hayley.moss@medr.cymru

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu manylion dyraniadau 2024-25 i sefydliadau sy'n gymwys i gael cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch.

Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi'r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, [y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#), o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Ers 2011 mae Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (HERC) wedi bod yn cael ei ddarparu i sefydliadau sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r cylchlythyr hwn yn hysbysu sefydliadau ynghylch dyraniadau ar gyfer 2024-25 ac yn darparu canllawiau ynghylch y gofynion adrodd a monitro cysylltiedig. Bydd y swyddogaethau cyllido a reoleiddio a gyflawnir gan CCAUC yn cael ei throsglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst. Dylid cymryd bod pob cyfeiriad at CCAUC yn cyfeirio at Medr unwaith y caiff y cyfrifoldeb ei drosglwyddo.

Cefndir

2. Mae'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) wedi cadarnhau y bydd yn darparu cyllid HERC ar gyfer pedwar chorff cyllido AU¹ y DU yn 2024-25. Bydd DSIT yn rhoi cymorth o £4,478,218 yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyfraniad cyfatebol gan olygu bod cyfanswm y gronfa'n £8,956,436. Yn dilyn diddymu CCAUC ar 1 Awst 2024, bydd Medr yn gweinyddu cyllid HERC ac yn sicrhau bod trefniadau adrodd a monitro'n ateb gofynion yr holl bartneriaid cyllido.

Defnyddio cyllid

3. Dim ond fel cyfalaf y gellir defnyddio'r cyllid a ddarperir ac mae wedi'i fwriadu'n arbennig i gefnogi datblygiad y seilwaith ffisegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil. Mae ymchwil yn cynnwys 'ymchwil wyddonol' (sy'n golygu ymchwil a datblygu yn unrhyw un o'r gwyddorau gan gynnwys y gwyddorau cymdeithasol neu dechnoleg (*adran 6(1) o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965*)) ac ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau.
4. Wrth benderfynu sut i ddefnyddio eu dyraniadau dylai sefydliadau ystyried gofynion [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru a'r uchelgeisiau a nodir yn [Strategaeth Arloesi'r DU](#), [strategaeth UKRI](#), a [Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru](#). Dylid meddwl hefyd sut y defnyddir cyllid i ategu uchelgeisiau a nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Dyraniadau

5. Dyrennir cyllid trwy ddau ddull ar wahân ar gyfer elfennau DSIT a Llywodraeth Cymru:
 - i) Mae elfen DSIT o'r cyllid yn cael ei dyrannu yn ôl yr un gyfran ag incwm gan Gyngorau Ymchwil. Yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth DSIT gyda

¹ CCAUC; Cyngor Cyllido'r Alban; Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon); Research England.

CCAUC² a Llywodraeth Cymru, dylai'r cyllid ganolbwyntio ar gynnal adrannau rhagorol â màs critigol i gystadlu'n fyd-eang a'r arbenigedd i gydweithio'n agos gyda busnesau, elusennau a gwasanaethau cyhoeddus. Cyfrifir dyraniadau gan ddefnyddio'r tair blynedd ddiweddaraf o ddata ar incwm gan Gynghorau Ymchwil.

- ii) Mae elfen Llywodraeth Cymru o'r grant yn cael ei dyrannu yn ôl yr un gyfran â chyfuniad o'r dyraniad Ymchwil o Ansawdd (QR) cylchol diweddaraf ac incwm ymchwil arall yr adroddwyd arno gan y darparwr wrth gyflwyno gwybodaeth i gofnod cyllid HESA. Mae'r dyraniad QR ar gyfer 2023/24 wedi cael ei ddefnyddio o fewn y fformiwla gyllido ar gyfer HERC yn 2024-25.

Trothwy Cyllido

6. Er mwyn ateb gofyniad DSIT bod y gronfa'n cefnogi rhagoriaeth ac yn datblygu màs critigol mae'r fformiwla'n cynnwys trothwy isaf o £100k. Dim ond sefydliadau sydd uwchlaw'r trothwy hwn fydd yn cael dyraniadau yn 2024-25.
7. Mae dyraniadau cyllido ar gyfer sefydliadau sy'n gymwys yn 2024-25 i'w cael yn **Atodiad A**.

Trefniadau monitro

8. Cyflwynodd sefydliadau fanylion blaenoriaethau cyllid HERC yn y dyfodol ar gyfer 2024-25 ym mis Chwefror 2024. Dylai cadarnhad o'r buddsoddiadau hyn, a chynlluniau posibl ar gyfer y dyfodol yn 2024-25, gael eu darparu trwy gwblhau a chyflwyno'r profforma yn **Atodiad B**:
 - Dylai Rhan 1 o'r profforma adrodd ar ddefnydd wedi'i gadarnhau o'r cyllid yn 2024-25, gan gynnwys cyfanswm costau buddsoddiadau ar raddfa fawr lle mae cyllid HERC wedi bod yn gyfraniad.
 - Dylid defnyddio Rhan 2 o'r profforma i adrodd ar flaenoriaethau gwariant ar gyfer 2025-26 yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd cyllid HERC pellach ar gael.
 - Rhaid dychwelyd **Atodiad B** i Medr yn ddim hwyrach nag **14 Chwefror 2025**.
9. Er mwyn cadarnhau bod HERC wedi cael ei wario'n llawn gofynnir i sefydliadau sy'n gymwys gyflwyno'r profforma Cadarnhad o Wariant yn **Atodiad C** erbyn **25 Ebrill 2025**. Dylai sefydliadau sicrhau ei bod hi'n glir a yw unrhyw gyllid sydd heb ei wario wedi'i neilltuo ac, os felly, erbyn pa ddyddiad y bydd yn cael ei wario'n llawn. Gall cyllid heb ei wario nad yw wedi cael ei neilltuo gael ei adhawlio gan Medr.
10. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan sefydliadau yn yr adroddiadau hyn yn sail i'r adroddiadau y mae'n ofynnol i Medr eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2025 ac i DSIT ym mis Mai 2025. Gallai methu â darparu manylion

² Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng DSIT, CCAUC a Llywodraeth Cymru'n cael ei ddiweddarau ar ôl 1 Awst i adlewyrchu'r ffaith bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo o CCAUC i Medr.

digonol am brosiectau a gwariant arwain at oedi cyn cadarnhau dyraniadau cyllid gan bartneriaid yn y dyfodol, neu ddynodi diffyg effaith posibl ar gyfer buddsoddiad HERC yng Nghymru a allai leihau'r ddadl dros gyllid barhaus.

Trefniadau talu

11. Fel a nodir yn **Atodiad A** bydd cyllid yn cael ei ddsbarthu trwy ddau daliad cyfartal ym mis Gorffennaf 2024 a mis Ionawr 2025.

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

12. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Moss (hayley.moss@medr.cymru).
13. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi'r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, [y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#), o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.
14. Os oes arnoch angen cael gafael ar gyhoeddiad nad yw ar gael yn rhwydd ym mis Awst, anfonwch neges e-bost i cyhoeddiadau@medr.cymru.

Asesu effaith ein polisiau

15. Rydym yn cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym hefyd yn ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch – Dyraniadau Cyllid 2024-25

	Dyraniad DSIT	Dyraniad LIC	Cyfanswm
Prifysgol De Cymru	£57582,	£170,441	£228,023
Prifysgol Aberystwyth	£386,051	£336,904	£722,955
Prifysgol Bangor	£292,644	£588,025	£880,670
Prifysgol Caerdydd	£2,408,460	£2,269,123	£4,677,583
Prifysgol Abertawe	£1,310,120	£1,015,611	£2,325,730
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	£23,361	£98,113	£121,475
Cyfanswm	£4,478,218	£4,478,218	£8,956,436

Proffil Taliadau 2024-25

Sefydliad	Gorffennaf-24	Ionawr-25
Prifysgol De Cymru	£114,012	£114,011
Prifysgol Aberystwyth	£361,478	£361,477
Prifysgol Bangor	£440,335	£440,335
Prifysgol Caerdydd	£2,338,792	£2,338,791
Prifysgol Abertawe	£1,162,865	£1,162,865
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	£60,738	£60,737
Cyfanswm	£4,478,220	£4,478,216

Nodiadau:

1. Yn 2024-25 rhaid i sefydliadau gyrraedd trothwy isaf o £100k pan fo'r fformiwla'n cael ei chymhwyso i fod yn gymwys ar gyfer arian HERC safonol.
2. Dyrennir cyllid DSIT yn ôl cyfran gan ddefnyddio'r tair blynedd ddiweddaraf o Incwm gan Gynghorau Ymchwil (2020/21 – 2022/23).
3. Dyrennir cyllid Llywodraeth Cymru yn ôl yr un gyfran â dyraniadau QR ar gyfer 2023/24, ac incwm ymchwil arall yr adroddwyd arno gan y darparwr wrth gyflwyno gwybodaeth i gofnod cyllid HESA yn 2022/23.

Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch – Adroddiad Monitro a Blaenoriaethau Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Sefydliad:			
Arweinydd Prosiect:		E-bost:	

Cwblhewch y tabl isod i adrodd ar y defnydd a gadarnhawyd o gyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch 2024-25 gan eich sefydliad. Dylech ddarparu dadansoddiad manwl o wariant ar gyfer pob prosiect. Lle defnyddiwyd Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch fel cyfraniad tuag at gostau cyfalaf mwy sylweddol, mae CCAUC a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg yn gofyn am ddadansoddiad o wariant i ddangos gwerth ychwanegol Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch.

Rhan 1 – Adroddiad ar y defnydd o gyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch yn 2024-25

Disgrifiad o'r prosiect	Amcanion y prosiect a ariennir	Manylion y gwariant (£k)	
		Sut mae Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch wedi cael ei fuddsoddi? £k (e.e. offer, cyfarpar, uwchraddiadau penodol i gyfleusterau / yr ystad)	Cyfanswm costau'r prosiect (o bob ffynhonnell) £k
Rhowch ddisgrifiad o'r prosiect, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r raddfa / arwyddocâd; unrhyw bartneriaid; ffactorau perthnasol eraill wrth flaenoriaethu defnydd cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch.	Beth fydd y buddsoddiad yn galluogi eich sefydliadau i'w gyflawni? Pam blaenoriaethu cyllid yn y maes hwn?		
Manylion Prosiect 1...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
Manylion Prosiect 2...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
Manylion Prosiect 3...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
Ac ati...		£	£
		Cyfanswm	£

Cysylltiadau â pholisi

1. Rhowch fanylion sut mae eich buddsoddiad yn helpu i fodloni agendâu neu flaenoriaethau LIC, cenedlaethol neu ryngwladol drwy gyfeirio at gyflawni nodau – [Rhaflen Lywodraethu](#); [Strategaeth Arloesi'r DU](#); [strategaeth UKRI](#); [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#); Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru y dyfodol; *unrhyw strategaethau perthnasol eraill*.

Rhan 2 – Nodi blaenoriaethau cyfalaf ymchwil ar gyfer 2025-26

Dylai'r adran hon o'r adroddiad nodi'ch blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer defnydd **cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch yn 2025-26**, gyda'r ragdybiaeth y byddwch yn derbyn dyraniad cyfalaf pellach o faint tebyg yn y flwyddyn honno.

Disgrifiad o'r prosiect	Amcanion y prosiect a ariennir	Dadansoddiad amcangyfrifedig o wariant 2025-26 (£k)	
		Rhowch fanylion amcangyfrifedig o'r buddsoddiad Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch a fwriedir (£k) (e.e. offer, cyfarpar, uwchraddiadau penodol i gyfleusterau / yr ystad)	Cyfanswm costau'r prosiect (o bob ffynhonnell) £k
Prosiect 1...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
Prosiect 2...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
Prosiect 3...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
Prosiect 4...		£ £ <i>Is-gyfanswm £</i>	£
		Cyfanswm	£

Rhan 3 – Cydymffurfedd rheoleiddiol

Cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol	
Maes rheoleiddio	Defnyddiwch y cwymplenni i gadarnhau:
i) Safonau'r Gymraeg (2018)	Dewiswch eitem.
ii) Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Dewiswch eitem.
iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)	Dewiswch eitem.

Cadarnhaf y canlynol:

- Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cywir o'r defnydd o gyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch yn 2024-25 (wedi'i wario neu a ymrwymwyd i gael ei wario hyd at Ebrill 2025);
- Mae Rhan 2 o'r ffurflen hon yn rhoi syniad dangosol o'r prosiectau arfaethedig a gefnogir gan Gyfalaf Ymchwil Addysg Uwch yn y flwyddyn ariannol 2025-26, gyda'r ragdybiaeth y bydd lefel debyg o gyllid ymchwil yn cael ei dyrannu yn y flwyddyn honno.

Llofnod: Is-Ganghellor	
Dyddiad:	

Noder: dylid cwblhau'r adroddiad hwn a'i gyflwyno i hayley.moss@medr.cymru erbyn **14 Chwefror 2025**.

Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch – Cadarnhad o Wariant 2024-25

Sefydliad:	
Arweinydd Prosiect:	
E-bost:	

Cyfanswm Dyraniad Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch ar gyfer 2024-25	£
Gwariant hyd at Ebrill 2025	£
Cyllid heb ei wario Ebrill 2025*	£

*Atodwch ragor o fanylion am unrhyw arian sydd heb ei wario. Os oes arian wedi'i ymrwmo i brosiect, rhwng fanylion, gan nodi pryd y bydd y gwariant wedi'i gwblhau. Fel y nodwyd yng nghylchlythyr [W24/14HE](#), gall CCAUC adennill unrhyw gyllid nad yw wedi'i ymrwmo.

Cadarnhaf fod cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch 2024-25 wedi'i wario yn unol â gwybodaeth prosiect a gyflwynwyd i CCAUC ym mis Chwefror 2025.

Llofnod: Is-Ganghellor	
Dyddiad:	

Noder: dylid cwblhau'r cadarnhad gwariant hwn a'i gyflwyno i hayley.moss@medr.cymru erbyn **25 Ebrill 2025**.